Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar

**Gyngor Sir Fynwy**
**Neuadd y Sir**
**Radur**
**Brynbuga**
**Sir Fynwy**
**NP15 1GA**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2020**

**gan**

**Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chyngor Sir Fynwy

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi ei leoli yn nwyrain Cymru, ac mae ganddo gyfanswm poblogaeth o ychydig dros 94,000 o bobl. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal pedair ysgol uwchradd, 30 ysgol gynradd, un ysgol arbennig ac un uned cyfeirio disgyblion. Mae 12 o feithrinfeydd a gynhelir a 25 o feithrinfeydd nas cynhelir yn yr awdurdod.

Penodwyd y Prif Weithredwr yn 2009. Dechreuodd y Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc yn y swydd yn 2017. Bu arweinydd y cyngor yn y swydd er 2008, ac ymgymerodd yr Aelod Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc â'r swydd yn 2017. Ym mis Tachwedd 2012 yr arolygwyd yr awdurdod lleol ddiwethaf.

Mae Sir Fynwy yn un o bum awdurdod lleol yng nghonsortiwm rhanbarthol y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) ar gyfer gwella ysgolion.

Yn 2019-2020, cyllideb addysg net y Cyngor yw tua £58 miliwn. Y gyllideb ysgol ddirprwyedig fesul disgybl yw £4,746 fesul disgybl, sef y 19eg uchaf o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso deilliannau ac ansawdd gwasanaethau addysg. Maent yn ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Mae rhywfaint o'r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc yn Sir Fynwy wedi ei nodi isod:

- Dros gyfnod o dair blynedd, bu 10.9% o ddisgyblion rhwng pump a phymtheg oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ar gyfartaledd, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 17.8%
- Mae 1.8% o ddisgyblion pump oed neu'n hŷn yn rhugl yn y Gymraeg, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 16.2%
- Mae 6.7% o ddisgyblion pump oed neu'n hŷn o leiafrifoedd ethnig, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 12.0%
- Mae gan 17.3% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 22.2%
- Roedd 98 o bob 10,000 o blant dan ofal yr awdurdod lleol yn 2019, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef 109 o bob 10,000 o blant

## Crynodeb

Mae arweinwyr yn darparu gweledigaeth glir a ffocws cryf ar sicrhau’r ‘dechrau gorau posibl mewn bywyd’ i ddysgwyr. Mae eu disgwyliadau uchel a’u hymrwymiad i waith partneriaeth cryf wedi cyfrannu at hanes da o wella. Yn benodol, maent wedi cryfhau’r her a chymorth i ysgolion ac wedi datblygu gweithdrefnau diogelu cadarn ac enghreifftiol.

Er nad oes unrhyw ysgol yn yr awdurdod wedi cael barn ragorol ar gyfer safonau yn ein harolygiadau dros y tair blynedd diwethaf, mae deilliannau i ddisgyblion yn yr awdurdod yn gyffredinol dda. Mae safonau lles yn gryf, ar y cyfan, ac mae presenoldeb yn dda hefyd yn y rhan fwyaf o ysgolion. Fodd bynnag, mae perfformiad disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gyffredinol is na pherfformiad yr un grŵp o ddisgyblion ledled Cymru.

Mae darpariaeth dda i gynorthwyo anghenion pobl ifanc yn yr awdurdod. Mae’r Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu ystod o weithgareddau gwerthfawr a chymorth buddiol i bobl ifanc sy’n agored i niwed. Mae gan arweinwyr ymrwymiad cryf i gynorthwyo lles pobl ifanc drwy wasanaethau cymorth ieuenctid.

Mae ymrwymiad cryf hefyd i wella ymhellach ddarpariaeth a deilliannau i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA), ac mae nifer o adolygiadau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi gwella gallu’r awdurdod i fodloni anghenion disgyblion. Fodd bynnag, mae gwerthusiad yr awdurdod o wasanaethau AAA yn anghyson, sy’n rhwystro ei allu i gynllunio ar gyfer gwella.

Yn gyffredinol, mae gan yr awdurdod brosesau hunanwerthuso clir a chyson, ond nid yw gwerthusiadau’n ddigon diagnostig bob tro ac, yn aml, nid yw eu dadansoddiadau’n ddigon dwfn. Nid yw swyddogion ac arweinwyr yn manteisio i’r eithaf ar y wybodaeth a geir o’r broses werthuso i lywio cynllunio gwelliant yn ddigon effeithiol.

## Argymhellion

A1 Gwella deilliannau i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

A2 Cryfhau ymhellach y ffocws ar gynyddu nifer y disgyblion sy'n cyflawni safonau rhagorol

A3 Cyfleu strategaeth glir ar gyfer darpariaeth AAA

A4 Cryfhau'r defnydd o wybodaeth sy'n cael ei chasglu drwy hunanwerthuso i lywio cynllunio gwelliant yn well

## Beth sy'n digwydd nesaf

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r argymhellion, ac ystyried y diffygion a nodwyd drwy'r broses arolygu. Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas â diogelu, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Deilliannau

At ei gilydd, mae disgyblion yn Sir Fynwy yn gwneud cynnydd da yn ystod eu hamser mewn addysg statudol.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae Estyn wedi arolygu dwy o'r pedair ysgol uwchradd ac 11 o'r ysgolion cynradd yn yr awdurdod. Barnodd Estyn fod safonau'n dda yn y ddwy ysgol uwchradd, ac mae cyfran yr ysgolion cynradd y barnwyd eu bod yn dda yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Yn ystod y cyfnod hwn, ni chafodd unrhyw ysgol farn ragorol ar gyfer safonau.

Yn gyffredinol, bu safonau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 mewn tair o'r pedair ysgol uwchradd yn unol â'r disgwyliadau, neu'n uwch, dros y tair blynedd diwethaf, er bod perfformiad mewn un o'r ysgolion uwchradd hyn yn dangos tuedd ar i lawr yn ystod y cyfnod hwn. Mewn un ysgol uwchradd, bu perfformiad islaw'r disgwyl yn gyffredinol.

Mae ein tystiolaeth o arolygiadau ysgolion yn dangos bod llawer o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae disgyblion mewn canolfannau adnoddau cymorth dysgu yn gwneud cynnydd da, o leiaf, ac mae disgyblion yn yr uned cyfeirio disgyblion (UCD) yn gwneud cynnydd addas. Yn gyffredinol, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn is na pherfformiad yr un grŵp o ddisgyblion ledled Cymru. At ei gilydd, gwna disgyblion sy'n agored i niwed gynnydd da yn eu dysgu mewn ysgolion cynradd, gan gynnwys disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol a phlant sy'n derbyn gofal. Mae cynnydd y disgyblion hyn yn gryfach yn ysgolion cynradd yr awdurdod nag ydyw mewn ysgolion uwchradd.

At ei gilydd, mae safonau lles disgyblion yn Sir Fynwy yn gryf. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel mewn ysgolion a lleoliadau, ac maent yn manteisio ar ystod eang o gymorth i ddatblygu'n unigolion hyderus, iach sy'n cyfrannu'n dda fel aelodau gwerthfawr o'u cymuned. Mae deilliannau o'n hadroddiadau arolygu mewn lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion cynradd yn dangos bod lles y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y darparwyr hyn yn dda, a bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn mwynhau dysgu. Yn y ddwy ysgol uwchradd a arolygwyd a'r uned cyfeirio disgyblion, barnwyd bod lles ac agweddau at ddysgu yn ddigonol ac angen eu gwella. Yn y darparwyr hyn, mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn canolbwyntio ac maent yn amharu ar ddysgu disgyblion eraill.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae cyfran yr ymadawyr Blwyddyn 11 y gwyddys nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant wedi parhau'n isel ac yn gyffredinol unol â chyfartaledd Cymru.

Mae cyfraddau cyfranogiad mewn gweithgareddau allgyrsiol, fel chwaraeon, yn uchel. Mae pobl ifanc yn defnyddio gwasanaethau cymorth ieuenctid yn dda i ddatblygu eu dyheadau, eu hunan-barch a'u medrau cymdeithasol. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynorthwyo pobl ifanc yn dda i ennill deilliannau achrededig a datblygu eu medrau arweinyddiaeth, fel pan gynlluniodd a threfnodd grŵp o bobl ifanc ŵyl ddeuddydd 'Diversifest' i hybu a dathlu amrywiaeth.

Mae pobl ifanc yn cael cyfleoedd buddiol i gyfrannu at benderfyniadau am faterion sy'n effeithio arnynt, ac mae'r awdurdod lleol yn ystyried eu safbwyntiau'n dda. Er enghraifft, mae'r grŵp cyfranogiad gofalwyr ifanc wedi cydweithio'n effeithiol â'r awdurdod i hyrwyddo cyfle cyfartal drwy ddatblygu polisi lle bydd pob gofalwr ifanc sy'n gwneud cais i weithio yn yr awdurdod yn cael cyfweliad gwarantedig.

Mae disgyblion sydd angen cymorth i wella eu lles meddyliol ac emosiynol yn elwa ar y strategaethau cymorth gwerthfawr y mae'r awdurdod yn eu darparu. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith ieuenctid wedi'i dargedu a gwasanaethau cwnsela. Mae dadansoddiad yr awdurdod yn dangos bod disgyblion sydd wedi cymryd rhan mewn sesiynau cwnsela yn ystod y tair blynedd diwethaf wedi gwella eu lles emosiynol.

At ei gilydd, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn gryf. Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn nodwedd gadarnhaol, a bu cyfraddau presenoldeb y pedair ysgol uwchradd yn gyffredinol unol â'r disgwyl, neu'n uwch, dros y tair blynedd diwethaf. Mae cyfraddau absenoldebau cyson mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Fodd bynnag, mae cyfradd yr absenoldebau cyson wedi cynyddu mewn ychydig o ysgolion cynradd ac un ysgol uwchradd dros y tair blynedd diwethaf.

Bu cyfradd y gwaharddiadau parhaol yn gyson isel dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae cyfradd y gwaharddiadau am gyfnod penodedig o bum niwrnod neu'n llai yn dangos tuedd ar i fyny dros yr un cyfnod.

**Gwasanaethau addysg**

O dan Faes Arolygu 2, mae Estyn yn gosod cwestiynau arolygu lleol sy'n berthnasol i'r awdurdod lleol unigol. Mae cwestiynau arolygu lleol yn canolbwyntio ar wasanaethau addysg sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau strategol presennol yr awdurdod lleol neu mae'r cwestiynau'n deillio o wybodaeth sydd gan Estyn am wasanaethau addysg yn yr awdurdod lleol.

**Pa mor effeithiol mae'r awdurdod lleol yn cydweithio â'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol i gynorthwyo, herio, monitro ac ymyrryd mewn ysgolion?**

Mae gan swyddogion yr awdurdod lleol a'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol (GCA) ddealltwriaeth gadarn o anghenion ysgolion yn Sir Fynwy. Maent yn cydweithio â'i gilydd yn effeithiol i ddarparu cymorth o ansawdd da i ysgolion. O ganlyniad, bu gwelliant cyffredinol mewn llawer o ysgolion dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Bu effaith y cymorth yn gryfach mewn ysgolion cynradd nag yn y sector uwchradd.

Yn gynyddol, mae'r awdurdod yn cydweithio'n dda â'r GCA i herio arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion i godi eu disgwyliadau yn ymwneud ag ansawdd yr addysgu a'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni. Mae dealltwriaeth gyffredin ymhlith swyddogion yr awdurdod lleol, ysgolion a'r GCA y bu disgwyliadau'n rhy isel yn y gorffennol, a chydnabyddiaeth o'r angen i ganolbwyntio gwaith gwella ar gyflawni rhagoriaeth hefyd.

Mae mannau cyswllt sefydledig niferus rhwng yr awdurdod lleol a'r GCA yn galluogi llinellau cyfathrebu clir a didwyll sy'n ategu gwella ysgolion yn effeithiol. Er enghraifft, mae cyfarfodydd sicrhau ansawdd misol yn sicrhau bod cymorth ac ymyrraeth i ysgolion yn targedu eu hanghenion penodol yn dda.

Mae'r awdurdod lleol a'r GCA yn cydweithio â'i gilydd yn effeithiol i fonitro cynnydd ysgolion. Lle mae ysgolion yn peri pryder, mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â'r GCA i ymyrryd drwy gymorth ac ymyrraeth ychwanegol. Er enghraifft, mae'r awdurdod yn defnyddio hysbysiadau rhybudd a'i bwerau statudol yn effeithiol iawn i fynd i'r afael â materion penodol yn ymwneud â pherfformiad ysgolion. Mae cyfarfodydd bob hanner tymor ar gyfer ysgolion sy'n peri pryder yn cyfarwyddo'r gwaith hwn yn llwyddiannus. At ei gilydd, mae ymyrraeth yn amserol ac yn effeithiol, sy'n aml yn arwain at welliannau cryf. Mae'r GCA yn ategu'r gwaith hwn yn dda drwy waith yr ymgynghorwyr her a thrwy nodi cymorth ychwanegol perthnasol.

Mae'r awdurdod lleol a'r GCA yn teilwra cyfleoedd dysgu proffesiynol i anghenion penodol ysgolion yn dda. Er enghraifft, mae gan bob ysgol arweinydd dysgu proffesiynol sy'n cydweithio ag ymgynghorydd her yr ysgol i lunio cynllun sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghenion datblygiadol staff, blaenoriaethau gwella'r ysgol a gofynion y cwricwlwm newydd sy'n dod i'r amlwg.

Bu'r awdurdod lleol yn arbennig o effeithiol o ran cydweithio ag ysgolion a'r GCA i fynd i'r afael â materion arweinyddiaeth wrth iddynt godi. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd sicrhau penodiadau uwch arweinyddiaeth o ansawdd uchel, ac maent yn gweithio'n dda i ddenu ymgeiswyr cryf o'r awdurdod lleol, y rhanbarth a'r tu hwnt.

**Pa mor dda mae Sir Fynwy yn nodi a chynorthwyo plant a phobl ifanc ag AAA i'w helpu i gyflawni deilliannau gwell?**

Dros amser, mae swyddogion yr awdurdod lleol wedi meithrin perthynas werthfawr ac effeithiol ag asiantaethau partner ac ysgolion. Mae ganddynt wybodaeth dda am eu meysydd cyfrifoldeb ac maent yn rhannu angerdd ac ymrwymiad i wella darpariaeth a deilliannau i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) ymhellach. O ganlyniad, cymerwyd nifer o gamau priodol i wella nodi disgyblion ag AAA a darpariaeth ar eu cyfer.

Mae'r awdurdod yn rhoi arweiniad clir i ysgolion mewn perthynas â nodi disgyblion ag AAA, a'r cymorth sydd ar gael iddynt. Mae'r arweiniad hwn yn amlinellu rôl yr ysgol a'r awdurdod lleol yn ddefnyddiol, o ran cynorthwyo disgyblion ag AAA, a'r gweithdrefnau i'w dilyn yn rhan o'r ymateb graddedig i fodloni eu hanghenion. Mae'r awdurdod yn bodloni ei gyfrifoldebau statudol i blant mewn lleoliadau nas cynhelir. Mae wedi cryfhau'r cyngor, cymorth ac arweiniad mae'n eu cynnig i'r lleoliadau hyn. Mae swyddogion arweiniol yn cydweithio'n dda â chydweithwyr a rhieni plant yn y blynyddoedd cynnar. Cryfhawyd trefniadau pontio a chânt eu gwerthfawrogi gan leoliadau, ysgolion a rhieni. Er bod y dull hwn yn gymharol newydd, mae'r awdurdod wedi gwneud gwerthusiad ar raddfa fach o effaith gadarnhaol y gwaith hwn.

Mae'r awdurdod wedi cynnal nifer o adolygiadau o'i wasanaethau cynhwysiant dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r rhain wedi arwain at newidiadau i ddarpariaeth bresennol a sefydlu darpariaeth newydd i ddisgyblion ag ystod o AAA. O ganlyniad i'r gwelliannau hyn, mae'r awdurdod mewn sefyllfa well, yn gyffredinol, i fodloni anghenion y disgyblion hyn.

Mae gan yr awdurdod drefniadau sefydledig ar waith â phob ysgol i drafod ei darpariaeth a monitro'r cynnydd mae disgyblion yn ei wneud. Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn cyfarfod ag arweinwyr ysgolion yn flynyddol. Mae trafodaethau'n cynnwys myfyrio'n ddefnyddiol ar strategaethau sydd wedi gweithio'n dda a'r rhai a fu'n llai llwyddiannus. Mae'r awdurdod yn dechrau datblygu corff cynyddol o dystiolaeth yn ymwneud ag arfer effeithiol i gynorthwyo disgyblion ag AAA. Mae'n defnyddio'r dystiolaeth hon yn briodol i gynghori ysgolion ar ddulliau i'w defnyddio, ac yn rhannu gwybodaeth am strategaethau â chydweithwyr yn y rhanbarth. Yn ddiweddar, mae'r Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc wedi cyflwyno fframwaith ansawdd a sicrwydd sy'n cwmpasu pob agwedd ar waith ysgolion. Mae hwn hefyd yn dechrau cael ei ddefnyddio i amlygu cryfderau a meysydd i'w datblygu yng ngwaith ysgolion mewn perthynas ag AAA.

Mae'r awdurdod yn olrhain cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys y disgyblion hynny sydd mewn ysgolion y tu allan i'r sir, yn dda. Mae hefyd yn casglu data ar gyfer pob disgybl yn ôl y math o AAA, er enghraifft y rhai sydd ag awtistiaeth, anawsterau dysgu ac anawsterau ymddygiadol. Fodd bynnag, nid yw'n defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da wrth adrodd i gynulleidfaoedd gwahanol, gan gynnwys uwch swyddogion ac aelodau etholedig.

Mae gan yr awdurdod lleol gysylltiadau sefydledig a gwerthfawr ag awdurdodau eraill yn y rhanbarth. Defnyddiwyd y cysylltiadau hyn yn effeithiol i baratoi ysgolion, lleoliadau eraill a chydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol ar gyfer y ddeddfwriaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) newydd. Mae gwefan yr awdurdod lleol yn rhoi trosolwg defnyddiol o'r broses AAA, gan gynnwys sut i fanteisio ar gymorth annibynnol. Fodd bynnag, mae ystod gyfyngedig o wybodaeth i rieni yn ymwneud â'r gwasanaethau AAA a ddarperir gan yr awdurdod lleol a sut i fanteisio arnynt.

Er gwaethaf gwelliannau o ran gwaharddiadau parhaol ac am gyfnod penodedig hwy, mae cyfradd y gwaharddiadau byrdymor i ddisgyblion ag AAA yn rhy uchel. Ni all yr awdurdod lleol roi sicrwydd i'w hun bod ysgolion yn gwneud addasiadau priodol i ddisgyblion ag AAA.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2018-2019, ymgynghorodd yr awdurdod lleol â grŵp bach o weithwyr proffesiynol ysgolion ar strategaeth ADY/AAA ar gyfer yr awdurdod. Mae'r strategaeth ddrafft yn amlinellu egwyddorion allweddol yn ddefnyddiol, ond nid yw'n cynnwys manylion am y prif gamau i'w cymryd, goblygiadau o ran adnoddau ac amserlenni.

At ei gilydd, mae dull yr awdurdod lleol ar gyfer gwerthuso'r ystod o wasanaethau AAA yn anghyson. Nid yw'n cipio cryfderau a meysydd i'w gwella yn ddigon da, ac mae hyn yn llesteirio ei allu i gynllunio ar gyfer gwella.

**Pa mor llwyddiannus yw'r awdurdod lleol o ran sicrhau bod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu?**

Nid yw perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn yr awdurdod yn cymharu'n dda â'r un grŵp o ddisgyblion ledled Cymru. Mae uwch arweinwyr wedi nodi'r angen i wella deilliannau ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion, a chaiff y dyhead hwn ei rannu gan swyddogion, aelodau etholedig ac arweinwyr

ysgolion ar draws yr awdurdod. Mae gan swyddogion yr awdurdod lleol ymrwymiad clir i fynd i'r afael â hyn fel blaenoriaeth, a gwella lles a chyflawniad academaidd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae Strategaeth Lles a Thegwch gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol y GCA yn llywio gwaith yr ymgynghorwyr her mewn perthynas â gwella deilliannau i ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae ymgynghorwyr her yn cynnig cyngor ac arweiniad defnyddiol i ysgolion ar y ffyrdd mwyaf effeithiol i ddefnyddio'r grant datblygu disgyblion, ac yn monitro pa mor dda mae ysgolion yn cymhwyso'r cyllid hwn. Yn ddiweddar, mae ymgynghorwyr her wedi gwella'r dystiolaeth uniongyrchol maent yn ei chasglu am y safonau mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn eu cyflawni. Er enghraifft, gwnaethant graffu ar waith disgyblion, gyda ffocws ar fonitro pa mor dda mae'r disgyblion hyn yn cyflawni, a nodi sut gall athrawon eu helpu i wella.

Ar hyn o bryd, mae swyddogion yn datblygu strategaeth i ddarparu dull teilwredig ar gyfer yr awdurdod lleol i wella perfformiad a phresenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r strategaeth hon yn cysylltu'n dda ag amcanion y Cynllun Busnes Corfforaethol a strategaeth y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol. Mae'n amlinellu'r cymorth sydd ar gael i ysgolion gan yr awdurdod a'i bartneriaid i wella darpariaeth a deilliannau i'r grŵp hwn o ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r strategaeth yn canolbwyntio'n ddigon da ar weithgareddau penodol sy'n berthnasol i ysgolion unigol na grwpiau o ddisgyblion. Nid yw'n glir ynghylch y gwelliannau dymunol i gyrhaeddiad disgyblion na sut bydd swyddogion yn mesur y gwelliannau hyn.

Mae tîm y blynyddoedd cynnar yn cydweithio'n dda â'i gilydd i helpu i liniaru effaith tlodi i blant ifanc ledled Sir Fynwy, a sicrhau eu bod yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Mae'r tîm yn cynnig cymorth i deuluoedd plant sy'n agored i niwed ar draws yr awdurdod. Mae swyddogion Dechrau'n Deg yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau iaith cynnar plant, ac yn defnyddio ystod o asesiadau ac ymyriadau i ddatblygu a gwella medrau siarad plant ifanc. Mae staff ym Mhrosiect Acorn yn rhoi cyngor ac arweiniad gwerthfawr i rieni i'w helpu i gynorthwyo datblygiad cymdeithasol ac emosiynol eu plant, yn ogystal â'u hanghenion dysgu. Gall rhieni fanteisio ar raglenni grŵp strwythuredig, er enghraifft i ddysgu am faethiad ochr yn ochr â'u plant neu gael cymorth mwy penodedig, fel dysgu sut i ddefnyddio'r toiled a gofalu am fabanod. Mae swyddog arweiniol y blynyddoedd cynnar yn cynnig cymorth da i leoliadau nas cynhelir, gan gynnwys rhoi cyngor ac arweiniad i staff ar y ffordd orau i ddefnyddio grant datblygu'r blynyddoedd cynnar. Gwna lleoliadau ddefnydd da o'r cyllid hwn i gynorthwyo plant a'u teuluoedd. Mae'r gwaith hwn yn rhan werthfawr o nod yr awdurdod lleol i sicrhau y gall plant ifanc drosglwyddo'n gadarnhaol i'r ysgol.

**Pa mor dda mae'r gwasanaeth ieuenctid yn cynorthwyo anghenion pobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed?**

Mae'r awdurdod yn cydnabod gwerth ychwanegol gwaith ieuenctid ochr yn ochr â gwasanaethau addysg a chymorth ieuenctid eraill, yn enwedig o ran cynorthwyo pobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae'r awdurdod wedi ymrwymo i gynnal ei fuddsoddiad mewn gwasanaethau ieuenctid er gwaethaf pwysau cyllidebol.

Mae'r awdurdod a'i ysgolion yn gwerthfawrogi ac yn parchu'r medrau proffesiynol sydd gan weithwyr ieuenctid o ran meithrin perthynas â phobl ifanc a'u cynorthwyo i ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol. Mae gweithwyr ieuenctid yn grymuso pobl ifanc i arwain gweithgareddau a ffurfio'r gwasanaethau maent yn eu derbyn. Mae gweithwyr ieuenctid yn ymgysylltu'n effeithiol ag ystod eang o bartneriaid i ddatblygu eu darpariaeth a chynorthwyo pobl ifanc sy'n agored i niwed.

Mae tîm Menter yr Ifanc yr awdurdod yn cynorthwyo pobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed, i ddatblygu'r medrau a'r hyder i fanteisio ar addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, a'u cynnal. Mae'r tîm hwn yn cydweithio'n dda â phartneriaid allweddol, fel ysgolion a Gyrfa Cymru, i nodi a thargedu cymorth ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae'r cymorth wedi'i deilwra yn ôl safbwyntiau ac amgylchiadau'r unigolyn ifanc. Enghraifft dda yw'r cyfle i bobl ifanc ymgysylltu â phrosiect Ysbrydoli. Nod y prosiect yw lleihau'r perygl o bobl ifanc rhwng 11 a 24 oed yn peidio â symud ymlaen i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae dwsinau o bobl ifanc yn ennill cymwysterau ffurfiol, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o adael yr ysgol heb unrhyw gymhwyster cydnabyddedig. I rai pobl ifanc sy'n agored i niwed, mae staff yn eu cynorthwyo i drosglwyddo'n llwyddiannus o'r ysgol i goleg neu ddarparwr hyfforddiant. Er enghraifft, maent yn eu helpu i baratoi ar gyfer y newid drwy gyfarfod â nhw yn eu cartref yn gynnar yn y bore, a chadw cwmni iddynt wrth iddynt gerdded neu deithio ar y bws er mwyn iddynt fagu hyder a chynnig cymorth personol iddynt.

Mae Gwasanaeth Ieuenctid yr awdurdod yn darparu ystod eang o weithgareddau buddiol sydd ar agor i bob unigolyn ifanc. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, tair canolfan ieuenctid, chwe chlwb ieuenctid, tri chlwb cyfrwng Cymraeg, Gwobr Dug Caeredin, gweithgareddau yn ystod gwyliau'r ysgol, gwaith allgymorth mewn cymunedau y tu allan i'r pedair prif dref, a gwaith amrywiol ag ysgolion, gan gynnwys ysgolion cynradd. Er bod y mwyafrif o'r gweithgareddau hyn yn gynhwysol i bobl ifanc sy'n agored i niwed, nid yw Gwobr Dug Caeredin yn ymgysylltu digon â phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig, er bod gan Sir Fynwy y gyfradd cyfranogiad uchaf ar gyfer unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru, yn gyffredinol.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig cymorth targedig i bobl ifanc sy'n agored i niwed, fel prosiect Shift, sy'n cynnig cymorth gwerthfawr ar gyfer lles emosiynol ac iechyd meddwl pobl ifanc. Er enghraifft, caiff pobl ifanc sydd ag anawsterau'n ymwneud â gorbryder, sy'n absennol o'r ysgol yn gyson ac sydd wedi'u harwahanu'n gymdeithasol, eu cynorthwyo'n fedrus gan weithwyr ieuenctid i fanteisio ar gymorth, ailintegreiddio â'u cyfoedion yn raddol ac ailgydio yn eu haddysg. Mae grŵp Equality Street, a oedd yn grŵp cymorth defnyddiol i bobl ifanc lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol yn wreiddiol, a'r rhai sy'n cwestiynu eu rhywioldeb neu rywedd, wedi ehangu i hyrwyddo cydraddoldeb am amrywiaeth yn ehangach, gan gael llwyddiant sylweddol, ac ennill Gwobr Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol yn 2019.

Er eu bod wedi'u cyllido'n dda, mae amryw o resymau pam y mae gwasanaethau'n dueddol o gael trafferth bodloni anghenion pobl ifanc hŷn rhwng 16 a 25 oed. Er enghraifft, mae gwasanaethau'n dueddol o roi blaenoriaeth i waith atal ac ymyrryd â phobl ifanc mewn ysgolion ac yn ystod y cyfnod yn syth ar ôl iddynt adael yr ysgol. Mae rhannu ffin â Lloegr, lle mae nifer sylweddol o bobl ifanc yn teithio ar gyfer addysg bellach, yn cyflwyno her oherwydd diffyg y protocolau rhannu data cytûn, sy'n cyfyngu ar effeithiolrwydd gwasanaethau ieuenctid. Mae'r awdurdod lleol yn cymryd camau addas i fynd i'r afael â'r rhain a rhwystrau eraill rhag gweithio â phobl ifanc hŷn.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae uwch arweinwyr yn pennu gweledigaeth glir ar gyfer addysg yn Sir Fynwy ac yn ei mynegi'n dda yn eu cynlluniau gwella. Ers yr arolygiad diwethaf yn 2012, mae arweinwyr wedi canolbwyntio ar wella deilliannau mewn ysgolion a sicrhau'r 'dechrau gorau posibl mewn bywyd' i ddysgwyr. Mae gan Arweinydd y Cyngor, y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc ddisgwyliadau uchel o swyddogion, ysgolion, darparwyr eraill a phartneriaid. Maent yn ennyn ymddiriedaeth rhanddeiliaid eraill drwy gyfathrebu'n dryloyw, ac yn darparu ymdeimlad cadarn a chynaledig o gyfeiriad ar gyfer yr awdurdod.

Un o gryfderau allweddol yr awdurdod yw'r modd y mae'n gweithio â'i bartneriaid, fel y GCA, i'w gynorthwyo i gyflawni rhai o'i brif uchelgeisiau'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys cryfhau'r modd y mae'n cynorthwyo, herio, monitro ac ymyrryd mewn ysgolion. Mae uwch arweinwyr yr awdurdod yn chwarae rôl strategol bwysig mewn sicrhau ansawdd gwaith y GCA, ac yn cyfrannu'n dda at ei reoli, llywodraethu a chraffu. Mae hyn yn cynnwys cynnal hinsawdd gadarnhaol ar sail ymddiriedaeth rhwng y naill a'r llall, sy'n annog trafodaeth broffesiynol agored a thryloyw am faterion heriol.

Mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn deall yn dda yr heriau y mae'r gwasanaeth addysg yn eu hwynebu. Yn benodol, mae gan Arweinydd y Cyngor amgyffrediad cryf iawn o'r prif faterion, ac mae'n annog aelodau'r cabinet ac uwch swyddogion i ystyried cynnydd yn erbyn cynlluniau busnes addysg yn barhaus. Mae hyn yn helpu i sicrhau ymdeimlad cryf o berchenogaeth ac atebolrwydd dros ddarparu'r gwasanaethau addysg yn Sir Fynwy.

Mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig wedi dangos eu parodrwydd i wneud penderfyniadau anodd, er enghraifft yn ymwneud â chau ysgolion, a materion staffio ac ariannol.

Mae gan yr awdurdod weithdrefnau priodol ar gyfer craffu, ac mae'n mynd ati i wella'r swyddogaeth hon ymhellach. Mae'r pwyllgor dethol Plant a Phobl Ifanc yn darparu craffu amserol ar nifer o faterion perthnasol sy'n wynebu addysg yn yr awdurdod. Mae swyddogion a phartneriaid, fel y GCA, yn cyflwyno adroddiadau addas i'r pwyllgor, ac mae uwch swyddogion yn cynorthwyo'r pwyllgor ymhellach drwy gynnig eglurder a gwybodaeth ychwanegol berthnasol yn ystod y cyfarfodydd. Mae hyfforddiant i aelodau craffu yn ddigonol, a gall cadeiryddion ac aelodau pwyllgorau dethol fanteisio ar arweiniad ar rôl rhag-gyfarfodydd a chwestiynau cyffredinol y gall aelodau fod eisiau eu gofyn er mwyn craffu ar berfformiad neu bolisi a'i herio.

Mae gan yr awdurdod uchelgais a strategaeth glir i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr yn Sir Fynwy, ac mae wedi cynyddu'r ddarpariaeth hon yn raddol dros amser. Mae'n ystyried barn rhanddeiliaid ac yn ymgysylltu'n dda â phartneriaid eraill wrth ystyried dyfodol darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r awdurdod yn ystyried sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd, ac yn edrych yn weithredol ar yr opsiynau ar gyfer darpariaeth uwchradd, yn ogystal â goblygiadau diwygiadau eraill i'w darpariaeth.

Mae'r awdurdod wedi sefydlu prosesau hunanwerthuso clir a chyson, sy'n galluogi arweinwyr a rheolwyr i nodi trosolwg o gryfderau a meysydd i'w gwella yn y rhan

fwyaf o feysydd. Lle caiff prosesau hunanwerthuso eu defnyddio'n effeithiol, maent yn sicrhau ansawdd gwasanaethau yn dda ac yn llywio cynllunio gwelliannau, fel mewn diogelu. Lle mae'r arfer hon yn llai effeithiol, nid yw'r gwerthusiadau'n ddigon diagnostig ac nid ydynt yn cynnig dadansoddiad digon cadarn o gryfderau a meysydd i'w gwella, fel ar gyfer AAA ac ystyried mesurau llwyddiant ar gyfer cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae prosesau hunanwerthuso'n rhoi trosolwg da i uwch arweinwyr o berfformiad a chyd-destun ysgolion yr awdurdod. Mae hyn yn eu galluogi i gomisiynu cymorth effeithiol i ysgolion drwy'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol. Mae hyn yn cyfrannu at welliannau mewn llawer o ysgolion yn yr awdurdod. Mae adroddiad blynyddol y prif swyddog ar blant a phobl ifanc, sy'n cael ei lywio gan sylfaen dystiolaeth eang, yn rhoi trosolwg defnyddiol a dadansoddiad strategol o ddeilliannau disgyblion, perfformiad ysgolion ac ystyriaethau cyd-destunol.

Er bod yr awdurdod lleol yn cynnig cyfleoedd priodol i blant a phobl ifanc fynegi eu safbwyntiau ar y gwasanaethau a ddarperir, er enghraifft drwy'r digwyddiad 'Make Your Mark', nid yw'n manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd iddynt rannu eu safbwyntiau ar brif feysydd blaenoriaeth bob tro, fel cymorth i ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

At ei gilydd, mae prosesau cynllunio gwelliant yn cael effaith gadarnhaol ar fynd i'r afael â blaenoriaethau lefel uchel yr awdurdod lleol, a'u mireinio, ac yn darparu sylfaen gadarn i reoli a chyfeirio adnoddau. Cânt eu hadolygu'r rheolaidd, sy'n galluogi swyddogion ac aelodau etholedig i nodi a lliniaru risg mewn modd amserol. Mae'r prosesau hyn yn fyfyriol, gan mwyaf, ac yn hyrwyddo diwylliant gwerthfawr o ddatblygu gwasanaethau ac atebolrwydd, er bod ychydig o'r gwerthusiadau o wasanaethau yn rhy ddisgrifiadol ac, ambell waith, nid ydynt yn cynnwys dadansoddiad digon arfarnol i lywio gwelliannau. Er bod cynllunio gwelliant yn ystyried ystod briodol o wybodaeth a data, yn gyffredinol, nid yw'n canolbwyntio'n ddigon miniog bob tro ar yr agweddau penodol ar gymorth sydd eu hangen, na sut olwg fyddai ar lwyddiant. Er enghraifft, nid yw'r dadansoddiad o ddata yn ymwneud â disgyblion ag AAA yn cynnwys y dyfnder sydd ei angen i lywio cynllunio gwelliant i'r gwasanaeth yn ddigon manwl.

Mae prosesau rheoli perfformiad yr awdurdod yn briodol ac yn canolbwyntio'n dda ar gynorthwyo staff i ymgymryd â'u rolau. Mae aelodau staff yn sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol am eu meysydd cyfrifoldeb. Yn gyffredinol, mae'r cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n cael eu cynnig iddynt yn eu cynorthwyo'n dda i ymgymryd â'u rolau'n llwyddiannus. Mae amcanion gwella rheoli perfformiad staff yn cysylltu'n agos â'u hanghenion datblygiadol penodol, ond nid ydynt yn alinio'n ddigon da â'r blaenoriaethau yng nghynlluniau gwella'r awdurdod bob tro.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae arweinwyr wedi gweithio'n ymwybodol ar wella cyfathrebu â rhanddeiliaid a meithrin perthynas gadarnhaol ag ysgolion yr awdurdod. Mae'r awdurdod yn hyrwyddo diwylliant o gydweithio ar draws ei adrannau, ei ysgolion a'i sefydliadau partner.

Mae uwch swyddogion wedi elwa'n dda ar y berthynas gefnogol agos sydd ganddynt ag uwch swyddogion mewn awdurdodau lleol eraill. Mae hyn wedi eu galluogi i sefydlu polisïau a gweithdrefnau effeithiol, a gwella eu harfer o ran cynorthwyo

ysgolion a phobl ifanc. Bu cyfleoedd gwerthfawr i swyddogion elwa ar ddatblygu proffesiynol drwy gydweithio ag asiantaethau eraill i fireinio eu harfer. Mae enghreifftiau effeithiol yn cynnwys cydweithio ag arbenigwyr yn sector y blynyddoedd cynnar i wella strategaeth yr awdurdod ar gyfer darpariaeth meithrin, a dysgu mwy am hunanwerthuso mewn perthynas â'r gwasanaeth ieuenctid. Mae'r awdurdod yn dechrau rhannu ei arfer dda ag awdurdodau lleol eraill, ac yn annog staff o'i ysgolion yn weithredol i rannu unrhyw arfer effeithiol sydd ganddynt â phartneriaid eraill yn ardal yr awdurdod lleol, y rhanbarth a'r tu hwnt.

Mae diogelu mewn gwasanaethau addysg yn dda. Mae pwysigrwydd diogelu fel cyfrifoldeb corfforaethol yn arbennig o gryf. Mae meithrin perthnasoedd gwaith cryf ar draws yr awdurdod lleol er mwyn cyflawni diogelu'n effeithiol yn golygu y caiff gwasanaethau addysg ac ysgolion eu cynorthwyo'n dda. Yn benodol, mae'r berthynas waith rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau addysg yn arbennig o effeithiol. Mae gan yr awdurdod lleol bolisïau a gweithdrefnau corfforaethol clir, sy'n amlinellu cyfrifoldebau'r holl staff yn dda, yn ogystal â'r rhai sydd â rolau diogelu arweiniol. Mae rôl grŵp diogelu'r awdurdod cyfan yn darparu fforwm effeithiol ar gyfer monitro, rheoli a gwerthuso diogelu.

Mae gan yr awdurdod lleol broses sicrhau ansawdd gadarn ar gyfer diogelu. Mae holl wasanaethau'r awdurdod lleol yn cynnal hunanwerthusiad diogelu blynyddol, sy'n llunio graddfeydd coch, melyn neu wyrdd yn erbyn meini prawf penodedig. Mae'r swyddog arweiniol ar gyfer diogelu mewn addysg yn monitro deilliannau'r hunanwerthusiadau hyn yn dda, ac yn herio unrhyw statws coch a gwirio unrhyw statws gwyrdd, yn ôl yr angen, sy'n arwain at gamau adferol, lle bo angen.

Mae gweithdrefnau recriwtio diogel yn gadarn. Caiff y camau sy'n cael eu cymryd i recriwtio staff taledig a di-dâl eu cofnodi'n glir, ac maent yn cynnwys deilliannau'r holl wiriadau cyn-cyflogi angenrheidiol. Caiff adroddiadau eithrio misol eu defnyddio i wirio y cymerwyd yr holl gamau gofynnol, ac y cyflwynwyd adroddiad arnynt i uwch reolwyr yr awdurdod lleol. Caiff gwiriadau blynyddol ar y safle eu cynnal ym mhob ysgol er mwyn gwirio bod y cofnodion hyn yn gyflawn.

Caiff unrhyw honiadau yn erbyn staff eu cymryd o ddifrif a'u hasesu drwy gyfarfod strategol proffesiynol, sy'n arwain at ddeilliannau â chasgliadau clir, a chamau gweithredu clir ar gyfer unrhyw gamau llwyddiannus. Caiff penaethiaid a chyrff llywodraethol eu cynorthwyo'n dda gan yr adran adnoddau dynol a'r swyddog arweiniol ar gyfer diogelu mewn addysg, yn ôl y gofyn.

Mae adroddiadau rheoli diogelu yn cipio'r prif negeseuon yn ymwneud â gweithgarwch diogelu mewn gwasanaethau addysg yn dda. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi dadansoddiad clir i uwch reolwyr ac aelodau etholedig o'r risgiau sy'n dod i'r amlwg neu feysydd i'w datblygu.

Mae'r awdurdod yn cynllunio ei gyllidebau blynyddol yn ofalus, gan ddangos ei ymrwymiad i addysg. Mae cyllid ar gyfer ysgolion yn Sir Fynwy islaw'r cyfartaledd o hyd, o gymharu ag ar gyfer ysgolion eraill yng Nghymru, ac mae gwariant ar wasanaethau addysg eraill, fel y Gwasanaeth Ieuenctid, uwchlaw'r cyfartaledd. Yn 2018-2019, cyfrannodd pwysau ar y gyllideb, yn enwedig o ran darpariaeth anghenion addysgol arbennig a chyllidebau ysgolion, at orwariant cyffredinol yn y gyllideb addysg.

Mae'r awdurdod yn rhoi cymorth effeithiol i'r fforwm cyllidebau ysgolion, sy'n ystyried materion pwysig sy'n effeithio ar ysgolion.  Chwaraeodd y fforwm ran allweddol yn yr adolygiad diweddar o'r fformiwla ariannu sy'n cael ei defnyddio i ddirprwyo cyllid i ysgolion, fel cytuno ar elfennau o'r fformiwla yr oedd angen eu hadolygu ac ystyried effaith y newidiadau arfaethedig ar ysgolion unigol.

Mae diffygion ariannol ysgolion wedi cynyddu'n nodedig dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a oedd yn golygu bod balans net Sir Fynwy ym Mawrth 2019 ymhlith yr isaf yng Nghymru; mae gan ychydig iawn o ysgolion falansau negyddol sylweddol.  Er bod cynlluniau adfer ar waith, wedi'u cytuno ag uwch reolwyr ac aelodau'r cabinet, mae'r awdurdod yn ystyried defnyddio benthyciadau i ysgolion.  Hyd yn hyn, nid yw wedi nodi'r goblygiadau ehangach i ysgolion o fod â chronfeydd wrth gefn mor isel ac effaith cyflwyno benthyciadau.

Mae'r awdurdod yn cydweithio'n dda ag ystod o bartneriaid yn Sir Fynwy ac yn rhanbarthol, ac mae ganddo ystod gynhwysfawr o gytundebau lefel gwasanaeth sy'n cynnig hyblygrwydd i ysgolion ddewis lefel eu cyfranogiad a manteisio ar wasanaethau cymorth.  At ei gilydd, mae nifer yr ysgolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn yn uchel.

Mae'r awdurdod wedi gwella ei adeiladau ysgol, gyda chymorth gan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru, ac wedi cwblhau arolygon cyflwr i lywio blaenoriaethau'r rhaglen gyfalaf.  Wrth ddatblygu ei Gynllun Datblygu Lleol newydd, mae'r awdurdod hefyd yn ystyried nifer y disgyblion yn y dyfodol mewn perthynas â datblygiadau tai newydd.  Bydd hyn yn helpu i lywio penderfyniadau cyllidebol a chyfalaf yn y dyfodol.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn ymgynghori â'r awdurdod lleol ar y cwestiynau arolygu lleol i'w defnyddio yn ystod yr arolygiad, ar sail hunanwerthusiad yr awdurdod, ei gynlluniau strategol a data perthnasol y mae Estyn yn ei gadw
- yn dadansoddi'r deilliannau o holiaduron agored, gan gynnwys barn dysgwyr, rhieni, staff a llywodraethwyr ysgol, staff yr awdurdod lleol, staff y consortiwm rhanbarthol, aelodau etholedig a'r cyhoedd
- yn cynnal ymweliad rhagarweiniol â'r awdurdod lleol i gyfarfod ag amrywiaeth o bartneriaid perthnasol i wasanaethau addysg, fel cynrychiolwyr dysgwyr, penaethiaid a llywodraethwyr, ac arweinwyr o asiantaethau statudol a thrydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod ag arweinydd y cyngor, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am wasanaethau addysg, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am graffu ar wasanaethau addysg, y prif weithredwr, y cyfarwyddwr addysg, arweinwyr a rheolwyr eraill mewn gwasanaethau addysg, staff perthnasol eraill yn yr awdurdod lleol, rheolwr gyfarwyddwr y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion a staff perthnasol eraill o'r consortiwm rhanbarthol
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r awdurdod lleol
- yn ystyried cynlluniau strategol a gweithredol yr awdurdod lleol ar gyfer gwella
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys gwybodaeth am ddeilliannau dysgwyr, gwybodaeth am berfformiad ysgolion a lleoliadau addysg eraill, gan gynnwys gwybodaeth gan y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, cofnodion o amrywiaeth o gyfarfodydd, adroddiadau a gyflwynir i'r cyngor neu'r swyddogaeth graffu, gwybodaeth am ddiogelu dysgwyr ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i wasanaethau addysg yr awdurdod lleol y mae Estyn yn ei chadw

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad
- rhoi copi drafft o'r adroddiad i'r awdurdod lleol er mwyn iddo nodi unrhyw bryderon ynghylch cywirdeb ffeithiol, a gwneud diwygiadau lle bo'r angen

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/04/2020